Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Popular Music

## Competition Overview

Popular music is a general term for a wide variety of music that appeals to a large segment of the population.

This competition offers learners to select, rehearse and perform a short set of three songs as a band of between two and seven members.

## Entry Criteria

The competition is for learners who are part of a band and training for a career in the Music Industry. They should be working towards or have achieved a Level 2 or 3 musical qualification (or equivalent).
No previous Gold medalists are permitted to re-enter the competition.
Please ensure that your entrants have the skills and competences to complete the task.

### Core Competencies

The scope of the competition enables learners to develop and put into practice a variety of skills that are required to be a working musician within the industry.

**Competitors taking part in this competition should be able to:**

- Play an instrument or sing to an advanced level
- Understand the technical operation and maintenance of their instrument and appropriate contemporary sound generation
- Be able to apply genre-specific performance and arranging techniques
- Understand and apply appropriate performance aesthetics and stagecraft
- Work collaboratively and communicate effectively
- Solve problems and meet challenges using practical and creative skills
- Demonstrate innovation in musical performance and arrangement

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2023 – Skills Competition Wales 2023

- Proactively manage disciplined personal practice.

**Conduct for competitors during live competition:**
- Competitors will perform live, three songs of their choice
- Competitors who arrive late will not receive additional time unless a valid reason is given
- If there is a power stoppage, breakdown of equipment or accident, the competitors must act according to the instruction of the organiser
- The use of inappropriate and offensive language in songs will need to be edited for the performance.
- Strictly no swearing is permitted during the performance including in-between songs.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 1 group per organisation, with a maximum of 7 competitors per group plus an additional 7 reserves can be registered incase of absence. This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.
This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here https://inspiringskills.gov.wales/competitions/frequently-asked-questions

## Brief

- Total stage time is 25 minutes and each set can last no longer than 15 minutes. Points will be deducted for going over the time allocated. Consideration must also be given to set-up and stage times.
- There are no regional heats for this category but rather a 'Battle of the Bands' event which is very exciting and a much sought-after accolade.
- This will take place on Wednesday 24th January at USW Atrium.
- **Competitors are to select, rehearse and perform a short set of three songs as a band of two or more members (maximum of 7). The performance of an original song composed by the competitors is optional but not mandatory.**
- It is important to note that this is not a song writing competition therefore any original compositions will be marked on exactly the same criteria as the cover songs (please see below). No additional marks will be awarded for composing.
- The event will be live streamed on the Facebook page www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol/.
- Detailed feedback will be available upon request to each college once approved by Skills Competition Wales and the winners have been announced.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2023 – Skills Competition Wales 2023 

## Infrastructure List

A Technical Specification sheet will be sent out to the colleges after registration. It is vital that this is completed and returned to Rhodri Owen in advance of the competition to facilitate each band's technical requirements and the smooth running of the day.

Backline will be supplied and we ask that all bands make use of this (see technical specification for details). There will also be an additional form sent out prior to the event asking for track listings for PRS purposes. This will also be an opportunity for bands to give information about themselves as well as make clear to the judges what they are trying to do in terms of market awareness (Aspect ID F).

You will be given an opportunity to quickly sound check before you start your first song. This will be your opportunity to let the technical team know if you're happy with your monitor mixes.

You may perform the songs in the style of your choosing but please be aware you are performing at a live public venue. Any inappropriate behaviour and/ or offensive language will need to be edited from the performance. It is the responsibility of staff to ensure that students adhere to this ruling.

We hope to include as much content as possible on the Facebook page
www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol/

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit
https://inspiringskills.gov.wales/terms/registrations-terms-and-conditions

**General competition rules**:

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be carried out by a team of experts from Industry and Higher Education, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

The songs will be performed live in front of a panel of judges. The judges will assess each performance against the criteria outlined below:

| Aspect ID | Description | Max Marks |
|---|---|---|
| **A** | **Musicality**<br>Phrasing, articulation, expression, dynamics, tone, consistent with style and content with regards to genre | **5** |
| **B** | **Technical Accuracy**<br>Timing, rhythm, pitch, intonation, consistent with style and content with regards to genre | **5** |
| **C** | **Stagecraft and awareness**<br>Appropriate performance aesthetic with regards to genre<br>Attitude and delivery, movement, visual presentation, balancing of the stage, time management | **5** |
| **D** | **Ensemble skills**<br>Unity as an ensemble, tightness, musical interaction, control of individual dynamics | **5** |
| **E** | **Arrangement and Selection**<br>Effective use of ensemble resources, understanding of arranging for live performance<br>Inventive arrangements and Interpretations | **5** |
| **F** | **Market awareness and originality**<br>Selection of appropriate repertoire with regards to genre and target audience (intended market)<br>Original performance (No extra marks for original compositions) | **5** |
| | **Total** | **30** |

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2023 – Skills Competition Wales 2023

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided during the competition by the judging panel.

There will also be a separate award for the 'Bands Band.' Here each band competing will vote for their favourite performance on the day. The result will be announced in a short ceremony at the end of the day. Please note: The result will have no bearing on the actual competition results released where marking will be quality assured prior to the release of the result.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 14th March 2024, where the First, Second and Third Awards will be announced. Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available upon request to competitors after the quality assurance process has been completed and the results announced.

## Competition Lead

For general enquiries about the competition please contact Gwen Hartleb : g.hartleb@gllm.ac.uk

For technical advice about the competition contact Rhodri Owen: rhodri.owen@gllm.ac.uk

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Cerddoriaeth Boblogaidd

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Term cyffredinol am amrywiaeth eang o gerddoriaeth sy'n apelio at garfan fawr o'r boblogaeth yw cerddoriaeth boblogaidd.

Mae'r gystadleuaeth hon yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddewis, ymarfer, a pherfformio set fer o dair cân fel band sydd â dau neu a saith aelod.

## Meini Prawf Mynediad

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer dysgwyr sy'n rhan o fand ac sy’n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y Diwydiant Cerddoriaeth. Dylent fod yn gweithio tuag at gymhwyster cerddorol Lefel 2 neu 3 (neu gyfwerth) neu wedi cyflawni cymhwyster cerddorol Lefel 2 neu 3.
Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg. Nid oes hawl i unrhyw un sydd wedi ennill medalau Aur yn y gorffennol ailymuno â'r gystadleuaeth.

### Cymwyseddau Craidd

Mae’r gystadleuaeth yn galluogi’r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau a dangos yr amrywiaeth ohonynt sy’n ofynnol i’w gael fel cerddor o fewn y diwydiant.

**Dylai cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon allu:**

- Chwarae offeryn neu allu canu i lefel uwch
- Deall gweithrediad technegol a medru cynnal eu hofferyn, yn ogystal â chynhyrchu sain gyfoes briodol
- Gallu cymhwyso technegau perfformio a threfnu sy’n benodol ar gyfer genre
- Deall a chymhwyso esthetig perfformiad priodol a chrefft llwyfan
- Cydweithio a chyfathrebu’n effeithiol
- Datrys problemau a bodloni heriau gan ddefnyddio sgiliau ymarferol a chreadigol
- Dangos arloesedd mewn perfformiad a threfniant cerddorol
- Ymroi i reoli arfer disgybledig personol.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2023 – Skills Competition Wales 2023

**Ymddygiad disgwyliedig o gystadleuwyr yn ystod y gystadleuaeth fyw:**

- Bydd cystadleuwyr yn perfformio'n fyw gyda thair cân o'u dewis
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n cyrraedd yn hwyr yn derbyn amser ychwanegol oni bai bod rheswm dilys yn cael ei roi
- Os bydd toriad trydan, offer yn torri neu ddamwain yn digwydd, rhaid i'r cystadleuwyr weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r trefnydd
- Bydd angen i ddefnydd o iaith amhriodol a sarhaus mewn caneuon gael eu golygu ar gyfer y perfformiad.
- Ni chaniateir rhegi yn ystod y perfformiad, gan gynnwys rhwng caneuon.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad fesul sefydliad

Uchafswm o hyd at 1 grŵp fesul sefydliad, gydag uchafswm o 7 cystadleuydd fesul grŵp ynghyd â 7 cronfa ychwanegol wrth gefn rhag ofn y bydd absenoldeb. Dyma uchafswm y nifer o geisiadau a ganiateir o un sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae'r 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae'r 'lleoliad' yn cyfeirio at safle ble mae'r cystadleuydd yn astudio / cael ei gyflogi. I gael rhagor o arweiniad ar y capasiti hyn, cliciwch yma
https://inspiringskills.gov.wales/competitions/frequently-asked-questions?lang=cy

## Briff

- Cyfanswm yr amser ar y llwyfan yw 25 munud ac ni all hyd unrhyw set fod yn fwy na 15 munud. Bydd pwyntiau'n cael eu didynnu am fynd dros yr amser a neilltuwyd. Rhaid hefyd sicrhau bod yr amser sydd ei angen i osod a'r amser ar y llwyfan yn cael ei ystyried.
- Nid oes rhagbrofion rhanbarthol ar gyfer y categori hwn. Bydd digwyddiad cyffrous mae mawr alw amdano sef 'Brwydr y Bandiau' yn digwydd yn ei le.
- Bydd hyn digwydd ddydd Mercher 24 Ionawr yng USW Atrium.
- **Mae'r cystadleuwyr i ddewis, ymarfer a pherfformio set fer o dair cân fel band o ddau neu fwy o aelodau (uchafswm o 7). Mae perfformiad cân wreiddiol a gyfansoddwyd gan y cystadleuwyr yn ddewisol ond nid yn orfodol.**
- Mae'n bwysig nodi nad cystadleuaeth ysgrifennu caneuon yw hon felly bydd unrhyw gyfansoddiadau gwreiddiol yn cael eu marcio ar union yr un meini prawf â'r caneuon cyfyr (gweler isod). Ni fydd unrhyw farciau ychwanegol yn cael eu dyfarnu ar gyfer y gwaith cyfansoddi.
- Bydd y digwyddiad yn cael ei ddangos yn fyw ar y dudalen Facebook www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol/. (Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru)
- Bydd adborth manwl ar gael i bob coleg unwaith y caiff ei gymeradwyo gan

Gystadleuaeth Sgiliau Cymru ac mae'r enillwyr wedi'u cyhoeddi.

## Rhestr Seilwaith

Bydd taflen Manyleb Dechnegol yn cael ei hanfon i'r colegau ar ôl cofrestru. Mae'n hanfodol bod hwn yn cael ei gwblhau a'i ddychwelyd i Rhodri Owen o flaen llaw cyn y gystadleuaeth er mwyn hwyluso gofynion technegol pob band a sicrhau rhediad llyfn ar y diwrnod.

Bydd y rhes gefn (*backline*) yn cael ei darparu a gofynnwn i bob band ei ddefnyddio (gweler y fanyleb dechnegol am fanylion). Bydd ffurflen ychwanegol hefyd yn cael ei hanfon cyn y digwyddiad yn gofyn am restrau trac at ddibenion Y Gymdeithas Hawliau Perfformio (PRS). Bydd hyn hefyd yn gyfle i fandiau gyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain yn ogystal â gwneud hi’n glir i'r beirniaid beth maent yn ceisio'i wneud o ran ymwybyddiaeth marchnata (Agwedd ID F).

Byddwch yn cael cyfle i gael prawf sain cyflym cyn i chi ddechrau eich cân gyntaf. Dyma fydd eich cyfle i roi gwybod i'r tîm technegol os ydych yn hapus neu beidio gyda'ch cymysgedd monitor.

Gallwch berfformio'r caneuon mewn arddull o’ch dewis chi ond byddwch yn ymwybodol eich bod yn perfformio mewn lleoliad cyhoeddus byw. Bydd unrhyw ymddygiad amhriodol a/neu iaith sarhaus angen cael ei olygu allan o'r perfformiad. Cyfrifoldeb y staff yw sicrhau bod myfyrwyr yn cadw at y rheol hon.

Gobeithiwn gynnwys cymaint o gynnwys â phosibl ar y dudalen Facebook
www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol/

## Rheolau’r Gystadleuaeth

Am yr holl delerau ac amodau ynghylch ymgeisio a’r rheolau cystadlu ewch i
https://inspiringskills.gov.wales/terms/registrations-terms-and-conditions?lang=cy

### Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth

- Bydd ffonau symudol yn cael eu diffodd yn ystod gweithgareddau’r gystadleuaeth.
- Dylai unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth gael ei gofyn i banel y beirniad.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylid rhoi gwybod i banel y beirniad am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd marcio a beirniadaeth y gystadleuaeth hon yn cael eu cyflawni gan dîm o arbenigwyr o Ddiwydiant ac Addysg Uwch, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau wedi'u dyrannu o

flaen llaw i sicrhau cysondeb.

Bydd y caneuon yn cael eu perfformio'n fyw o flaen panel o feirniaid. Bydd y beirniaid yn asesu pob perfformiad yn erbyn y meini prawf a amlinellir isod:

| **Cyf. Agwedd** | **Disgrifiad** | **Uchafswm y Marciau** |
|---|---|---|
| **A** | **Perseinedd**<br>Brawddegu, ynganiad, mynegiant, dynameg, tôn, cysondeb yr arddull, a chynnwys ar sail genre | **5** |
| **B** | **Cywirdeb Technegol**<br>Amseru, rhythm, traw, tonyddiaeth, cysondeb yr arddull, a chynnwys ar sail genre | **5** |
| **C** | **Crefft llwyfan ac ymwybyddiaeth**<br>Esthetig perfformiad llwyfan addas ar sail genre<br>Agwedd a chyflwyniad, symudiad, cyflwyniad gweledol, cydbwysedd y llwyfan, rheoli amser | **5** |
| **D** | **Sgiliau ensemble**<br>Undod fel ensemble, tyndra, rhyngweithio cerddorol, rheolaeth ar ddynameg unigol | **5** |
| **E** | **Trefniant a Detholiad**<br>Defnydd effeithiol ar adnoddau ensemble, dealltwriaeth o drefnu ar gyfer perfformiad byw<br>Trefniadau dyfeisgar a Dehongliadau | **5** |
| **F** | **Ymwybyddiaeth o'r farchnad a gwreiddioldeb**<br>Dewis repertoire priodol o ran genre a chynulleidfa darged (y farchnad dan sylw)<br>Perfformiad gwreiddiol (Dim marciau ychwanegol ar gyfer cyfansoddiadau gwreiddiol) | **5** |
| | **Cyfanswm** | **30** |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth ar lafar yn unigol ac mewn grwp yn cael ei gynnig gan banel y beirniad yn ystod y gystadleuaeth.

Bydd hefyd gwobr ar wahân ar gyfer 'Band y Bandiau.' Yma bydd pob band sy'n cystadlu yn pleidleisio dros eu hoff berfformiad ar y diwrnod. Cyhoeddir y canlyniad mewn seremoni fer ar ddiwedd y dydd. Noder:  Ni fydd y canlyniad yn effeithio ar ganlyniadau gwirioneddol y gystadleuaeth a fydd yn cael eu rhyddhau ar. Bydd proses sicrhau ansawdd o’r marcio yn digwydd cyn rhyddhau'r canlyniadau.

Bydd pob cystadleuydd yn derbyn Tystysgrif Cyfranogiad ac yn cael eu gwahodd i Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 14eg Mawrth 2024, lle cyhoeddir pwy ddaeth yn Gyntaf, yn Ail ac yn Drydydd. Bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt dros e-bost.

Bydd taflenni marcio ar gael ar gais i gystadleuwyr ar ôl cwblhau'r broses sicrhau ansawdd a'r canlyniadau a gyhoeddwyd.
.

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ynghylch y gystadleuaeth cysylltwch â Gwen Hartleb: g.hartleb@gllm.ac.uk

Am gyngor technegol ynghylch y gystadleuaeth cysylltwch â Rhodri Owen: rhodri.owen@gllm.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2023 – Skills Competition Wales 2023